

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,
Nos Fawrth, 28 Tachwedd 2017
am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol:

Mr Aled Ifan **AI**, Mr A Jones **AJ** (**Cadeirydd**), Mrs Linda Jones **LJ**, Ms Cari Jones **CJ**, Dr Edward Jones **EJ**, Mr Victor Owen **VO**, Ms R Owen **Clerc**, Miss JA Roberts **JAR** Mrs EAB Thomas **EABT**, Cynghorwr Ken Huws **KH**.

Ymddiheuriadau. Mr O G Roberts.

2. Datgan Diddordeb.

KH ynglyn ac eitem 5.

3. Cofnodion Hydref 2017 ac unrhyw faterion yn codi.

LJ yn cynnig eu bod yn gywir. **EJ** yn eilio.

3.1 Nododd y clerc ei bod wedi bod yn parhau i dderbyn cyngor pellach ynglyn a'r broses o gyfethol gan fod mwy o ymgeiswyr na seddau. Roedd yn tybio ei bod yn agosau at gael ymateb clir a phendant, ac felly byddai'r rhybudd yn cael ei ymddangos ar ei union.

3.2 Gofynnodd y clerc am gadarnhad gan fod un or giatiau yn cael eu trin, a oedd angen "galfaneiddio" llall er mwyn i'r ddau giat fod yr un lliw neu peidio? Nodwyd gan yr aelodau byddai'n creu gwell edrychiad ac yn sicrhau urddas y fynwent. **LJ** yn cynnig, **VO** yn eilio, dim gwrthwynebiad.

3.3 Nododd **AJ** ei siomodigaeth ei bod yn ymddangos fod gwaith atgyweirio rhywfaint o'r waliau ar gyrion y pentref wedi arafu neu dod i ben. Nodwyd efallai fod gwlybyniaeth y tir yn cael effaith, ac mynegwyd gobaith byddai'r gwaith yn cael ei gyflawni unwaith byddai'r tywydd wedi sychu rywfaint.

3.4 Nododd y clerc ei bod yn disgwyl ymateb i gadarnhau fod y math o hysbysfwrdd roedd yn fwrriadu archebu yn dderbynniol i'r Cyngor Sir a pherchennog y tir, sef yr Adran Dai.

3.5 Nodwyd unwaith eto fod cyflwr Lon Dywyll yn annerbynniol. Cynnigodd **KH** fynegi'r pryder i CSYM unwaith eto, a cynnigodd **AJ** gwrdd a unrhyw un o CSYM yn y lleoliad i drafod pryderon y gymuned lleol. Nodwyd hefyd dealltwriaeth mai oherwydd gorchymyn torriadau San Steffan roedd cyllideb adran briffyrdd yn annigonol i ymateb i anghenion lleol.

Cyngor Cymuned Bodedern



4. Maes Chwarae.

Nododd CJ fod noson codi arian Calan Gaeaf wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda £250 wedi ei godi at yr achos. Unwaith eto roedd trigolion y pentref wedi bod yn gefnogol iawn. Nododd y clerc fod dau arwydd "Dim cwn" wedi eu darparu, ac byddent yn cael eu gosod ar y giatiau.

5. Materion Cynllunio.

Cais 13C198A/TR/SCR.

Barn sgrinio ar gyfer lleoli 30 siale, codi derbynfa, creu llyn pysgota ac adeiladu lon fynediad a llecynnau parcio ynghyd a gwaith tirlunio a gwaith arall yn Penmynydd Farm, Caergeiliog.

Nododdy y clerc fod y cais wedi ei derbyn ar Cd-Rom, gan ei fod yn gais sylweddol. Roedd gormod o ddogfennau i brintio, felly roedd wedi dewis un neu ddau fel esiampl o'r datblygiad. Byddai'r gweddill yn cael eu ebostio (os yn bosib oherwydd y nifer) ac nododd fod amser cyfynedig ar gyfer mynegi unrhyw sylwadau. Gofynnodd felly i'r aelodau fynegi unrhyw sylwadau unai i'r clerc neu yn uniongyrchol i CSYM erbyn 7 o Ragfyr.

6. Gohebiaeth.

Dim.

7. Elusen David William.

Cytunwyd ar y dyddiad o 12/12/17 rhwng 2-3 o'r gloch i rannu'r arian. Trafodwyd os oedd dymuniad aros gyda'r swm o £5 neu ei godi i swm uwch. AJ a'r clerc i adolygu'r cyfrifon a cytuno ar swm.

Cyngor Cymuned Bodedern



8. Cysylltedd We/Band-Eang.

Gofynnodd **EJ** am adborth yr aelodau ynglyn a'u cysylltiad we gan ei fod yn ymwybodol fod problemau sylweddol yn bodoli mewn rhai lleoliadau yn y gymuned. Nododd **LJ** ei bod wedi mymychu cyfarfod gyda Rhun ap Iorwerth AC, ond mai cyfarfod i dderbyn gwybodaeth yn unig oedd hwn, ac nid oedd unrhyw awgrymiadau o welliant. Nododd **LJ** bod ei sefyllfa hi yn ddifrifol, gyda cysylltiad we efallai un diwrnod o bob mis. Roedd hyn yn creu problemau sylweddol, yn enwedig gan fod llawer o waith gyda grantiau, derbyn gwybodaeth a taliadau gan Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn gorfod cael eu gwneud ar lein, heb os. Roedd hyn yn rhoi llawer o deuluoedd a busnesau cefn gwald dan anfantais mawr, ac yn cael effaith andwyol iawn ar fusnesau a gwaith lleol, ac wrth gwrs wedyn ar yr economi lleol. Y clerch i gysylltu a Rhun ap Iorwerth, Albert Owen ac CSYM i fynegi pryderon, ac i holi beth yw'r darpariaeth ar gyfer y dyfodol i ddatrys yr anhawsterau sylweddol sydd yn gwynebu llawer o gymunedau cefn gwlad.

9. Taliadau i'w gwneud.

Mon GC	Inv: 2483	£100.00	Torri'r fynwent
Mon CF (Ynys Trading Ltd)	Inv: 18PM03	£150.00	Sedd newydd i swing
Mon CF (Ynys Trading Ltd)	Inv: TAG137	£22.50	Trin bwr picnic

10. Unrhyw fater arall.

EJ yn gwneud ymholiad os oedd unrhyw newydd ynglyn a Cais Gate Farm? Nododd y clerch nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth pellach.

KH yn nodi fod ymgynghoriad ynglyn ac Arbedion CSYM ac ei fod yn bwysig mynegi barn cymunedau a thrigolion lleol.

EABT yn nodi fod golau stryd ddim yn gweithio yn Bro'r Ysgol wrth fynediad y Maes Chwarae dros ffordd i'r Ganolfan. **KH** yn cysylltu a CSYM i'w hysbysu.

JAR yn nodi hefyd fod dau lamp arall yn y pentref ddim yn gweithio, ar y chwith am Dalar cyn y fynwent, ac ochor draw i'r fywnent. **KH** yn hysbusebu CSYM eto.

LJ yn nodi fod cyfarfod arall o Warchodwyr Towyn Trewan ond ni fyddai yn gallu mynychu.

Cau

19:55

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com